**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu – Datblygu ac Adfywio

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 7 Tachwedd 2018 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd J W Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| E W Fitzgerald | S J Gallagher | D W Helliwell |
| C A Holley | M H Jones | P K Jones |
| S M Jones | | |

| **Swyddog(ion)** | |
|---|---|
| Bethan Hopkins | Scrutiny Officer |
| Huw Mowbray | Gwasanaeth Adfywio Economaidd A Chynllunio |
| Phil Holmes | Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas |
| Paul Relf | Rheolwr Datblygiad Economaidd a Chyllid Allanol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): T M White

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

- Dim

2 **Cofnodion.**

- Cymeradwywyd

3 **Adroddiad Diweddaraf am y Prosiect**

- Ychydig o fanylion technegol yn cael eu hystyried ar gyfer dyluniadau cynlluniau yn Abertawe Ganolog - Cam 1
- Datrys materion 'hawl i oleuo' ar gyfer preswylwyr y Marina
- Gwella mynediad i'r Marina wrth symud ymlaen
- Mae dau berson wedi gadael y tîm ac mae hyn yn effeithio ar adnoddau
- Mae cynigion tai yn rhai Cymdeithas Tai
- 13 o bartïon â diddordeb yn y gwesty - rhaid bod yn 4 seren

- Bydd gan y bont newydd lethr graddol a bydd yn hygyrch iawn ac yn ganolbwynt yn y dylunio
- Mae materion cyllidebol yn cael eu datrys ond bydd hon yn broses barhaus
- Cynllun mawr sy'n cynnwys Y Tu Hwnt i Frics a Morter
- Ffordd y Brenin yn symud ymlaen yn ôl y cynllun
- Paratoi ar gyfer y dyfodol drwy ganiatáu gosod ceblau ffeibr optig
- Ffordd y Brenin o fewn y gyllideb - ychydig o gyllid gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
- Awgrymu erthygl yn amlinellu ystyr 'arena ddigidol' er lles y cyhoedd
- Awgrymu edrych ar Safonau Gwydnwch y Ddinas
- Bydd Isadeiledd Gwyrdd yn ffurfio rhan o'r cynllun - mae creu awyrgylch ac amrywiaeth yn hanfodol
- CNC yn arwain ar bolisi Isadeiledd Gwyrdd
- Un o fanteision Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Creu cysylltiad newydd â Stryd Rhydychen ger hen safle Oceana
- Dylid edrych ar strategaeth gosod yr adeilad yn ei chyfanrwydd
- Angen strategaeth cylch oes ar gyfer busnesau yn Abertawe
- Aros am ymateb ar achos busnes gan y llywodraeth
- Mae'r cyngor yn benthyca arian ymlaen llaw er mwyn i'r prosiectau gael eu rhoi ar waith
- Mae'r Fargen Ddinesig yn fecanwaith er mwyn darparu blaenoriaethau
- Yr amserlen ar gyfer cyflawni'r gwaith yw 2020 a'r arena yn 2021
- Cysylltiad posib trwy'r arcêd sydd eisoes yn bodoli i'r pentref digidol - risg posib i'r siopau presennol
- Prosiect Skyline yn symud ymlaen
- Mae Cyngor Abertawe'n darparu gwasanaethau i ffiniau'r prosiect
- Dim trafodaeth eto gyda Dug Beaufort dros ffïoedd ar gyfer mynediad
- Rhai materion o ran perygl llifogydd sydd bellach yn cael eu hystyried gan CNC
- Bydd yr ystlumod yn yr adeilad Gwaith Copr presennol yn cael eu hailgartrefu'n briodol mewn tai ystlumod cyn bydd unrhyw waith yn cael ei wneud - hefyd yn ystyried materion goleuo yma
- Datrys materion carthffosiaeth ar gyfer Penderyn - bydd datblygiad mwy ar y safle yn gofyn am waith carthffosiaeth pellach
- Mae gan Skyline gynrychiolwyr amgylcheddol da
- Disgwyl Ch1 2019 ar gyfer apwyntiad Sgwâr y Castell
- Wedi trafod prydlesi ar gyfer Felindre a ddylai annog datblygu pellach
- Creu swyddi a bydd dyluniad yr adeilad o safon
- Bydd meysydd parcio tymor hir yn aros i ddechrau ond yn cael eu symud os bydd y safle yn datblygu yn y dyfodol
- Wedi derbyn cais cynllunio Felindre

## 4 Datblygiad Penderyn - Trosolwg

- Roedd copr yn rhan bwysig o ddatblygiad Abertawe
- Nifer o adeiladau rhestredig Gradd 2 ar y safle
- Mae waliau adeilad y Tŷ Pŵer mewn cyflwr da ac yn gallu cael eu hadfer

- Mae'r Cynllun Menter Treftadaeth yn ariannu'r diffyg cadwraeth ar yr adeilad a disgwylir i breswylydd preifat fod ar y safle
- Catalydd i ddatblygu adeiladau eraill
- Aros am gadarnhad ynghylch cyllid
- Dylai greu swyddi - 19.5 o swyddi
- Distyllfa weithredol, siop, ardal arddangos, storfa casgenni a dosbarthiadau meistr ar gael
- Arian cyfatebol gan y cyngor ar waith
- Ar y safle ddechrau Hydref 2019
- Bu perchnogion Penderyn yn ymwybodol o'r safle ers cryn amser
- Bydd angen elfen fasnachol er mwyn cynnal y prosiect
- Cyfrannodd y cyngor £1.7m i'r cynllun a chodir tâl ar ymwelwyr sy'n ymweld â'r cyfleuster. Cytunir ar amrywiaeth y taliadau rhwng Penderyn a'r awdurdod lleol

5 **Cynllun Gwaith 2017 - 2018.**

- Eitemau archwilio i'w cynnwys ar ôl i'r adroddiad fynd at Bwyllgor y Rhaglen Graffu

6 **Gwahardd y cyhoedd**

7 **Datblygiad Penderyn - Trosolwg**

- Trafodwyd yr eitemau eithriedig

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45am

**Cadeirydd**